

Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu

Detholiad o ddeddfau gwrth-Iddewig y Natsïaid, 1933-39

1933

- ***Y Gyfraith ar gyfer Adfer y Gwasanaeth Sifil Proffesiynol*** - Roedd y gyfraith hon yn tynnu Iddewon a gwrthwynebwyr gwleidyddol y Natsïaid o swyddi yn y gwasanaeth sifil, gan gynnwys swyddi mewn ysgolion, prifysgolion a swyddi'r llywodraeth.
- ***Y Gyfraith yn Erbyn Gorboblogi mewn Ysgolion a Phrifysgolion*** - Dywedodd y gyfraith hon na allai myfyrwyr Iddewig fod yn fwy na phump y cant o boblogaeth myfyrwyr unrhyw ysgol gyhoeddus neu brifysgol. Roedd yn rhaid i lawer o fyfyrwyr Iddewig adael ysgolion cyhoeddus a dechrau mynychu ysgolion preifat. Dysgodd ysgolion yn yr Almaen syniadau hiliol Natsïaidd am ragoriaeth yr 'Ariaidd' ac israddoldeb Iddewon.¹
- ***Cyfraith y Golygyddion*** - Roedd y gyfraith hon yn gwahardd Iddewon rhag gweithio mewn newyddiaduraeth.

1935

- ***Cyfraith Dinasyddiaeth y Reich*** - Roedd y gyfraith hon yn diffinio pwy oedd llywodraeth yr Almaen yn eu hystyried yn 'Almaenig' a phwy oedd yn 'Iddew'. Roedd y gyfraith yn diffinio Iddewon fel hil a nodwyd gan waed ac achau. Nid oedd yn nodi Iddewiaeth fel crefydd na diwylliant. O dan y gyfraith hon, collodd Iddewon eu dinasyddiaeth a daethant yn 'ddeiliaid y wladwriaeth'.
- ***Y Gyfraith er Gwarchod Gwaed yr Almaen ac Anrhydedd yr Almaen*** - Roedd y gyfraith hon yn gwahardd priodas rhwng Iddewon a phobl nad oeddynt yn Iddewon. Roedd hefyd yn gwneud cysylltiadau rhywiol rhwng y cyplau 'hil gymysg' hyn yn anghyfreithlon. Enw'r drosedd hon oedd *Rassenschande* (halogi hil).
- Gyda'i gilydd gelwir y ddwy gyfraith hyn yn ***Gyfreithiau Hil Nuremberg***.

¹ Hyrwyddodd y Natsïaid syniad ffug a oedd yn gogoneddu pobl yr Almaen fel aelodau o'r 'hil Ariaidd' uwchraddol, tra'n diffinio Iddewon, Slafiaid, pobl dduon, a Roma a Sinti fel 'an-Ariaidd' - is-ddynion israddol o ran hil.

Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu

Detholiad o ddeddfau gwrth-Iddewig y Natsïaid, 1933-39

1938

- **Cyfraith ar Newid Enwau Teuluol ac Enwau Personol** - Roedd y gyfraith hon yn ei gwneud yn ofynnol i Iddewon nad oedd ag 'enwau cyntaf Iddewig' gymryd yr enwau canol 'Israel' (ar gyfer dynion) neu 'Sara' (i ferched). Erbyn 1 Ionawr 1939, roedd angen i bob Iddew gael pasbortau newydd neu gardiau adnabod yn rhestru eu henwau newydd. Marciwyd y dogfennau hyn gyda'r llythyren 'J'.
- **Archddyfarniad ar Wahardd Iddewon o Fywyd Economaidd** - Roedd y gyfraith hon yn gwahardd Iddewon rhag bod yn berchen ar fusnesau neu fasnachu. Roedd busnesau oedd yn eiddo i Iddewon eisoes wedi wynebu pwysau i 'Arieiddio', a olygai y byddai'r perchennog Iddewig yn cael ei orfodi i werthu ei fusnes am bris gostyngol i weithiwr nad oedd yn Iddew neu i gefnogwr y Natsïaid.
- **Archddyfarniadau eraill:**
 - Diarddel pob plentyn Iddewig o'r ysgol.
 - Tynnu trwyddedau gyrru oddi ar Iddewon.
 - Gwahardd Iddewon rhag mynychu'r theatr neu sinema.
 - Gwahardd Iddewon o bob prifysgol.
 - Gwahardd Iddewon rhag mynychu cyfleusterau chwaraeon.
 - Gwahardd Iddewon rhag mynd i barthau 'Ariaidd' a oedd wedi'u sefydlu mewn llawer o ddinasoedd.
 - Atal meddygon Iddewig rhag trin cleifion 'Ariaidd'.

Ffynonellau

United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopedia: Anti-Jewish Legislation in Pre-war Germany* <<https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/anti-jewish-legislation-in-prewar-germany>> [cyrchwyd 7 Mawrth 2022]

United States Holocaust Memorial Museum, *Laws and Decrees* <<https://www.ushmm.org/m/pdfs/USHMM-Timeline-Activity-Laws-Decrees.pdf>> [cyrchwyd 7 Mawrth]

